

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol o Bell a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr D. De'Ath a M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam.

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Sivagnanam i swydd y Cadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

(c) Penodi Is-Gadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Goode i swydd y Is-Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio

(d) Ymddiheuriad Am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Goode (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr).

(e) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

(f) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(g) Datganiad o Gyfrifon 2021/22 heb eu Harchwilio Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (PC/SA151) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Pennaeth Cyllid fod Datganiad Cyfrifon y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) 2021/22 Heb ei Archwilio wedi'i baratoi yn unol â'r arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod). Roedd y Datganiad wedi'i gwblhau, a rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol GRhR cyn yr archwiliad terfynol mewn ynglŷn â blwyddyn ariannol 2021/22.

Roedd Atodiad 1 i'r adroddiad nad oedd ar gael ar adeg anfon yr agenda wedi'i anfon at yr holl Aelodau a'i lanlwytho i wefan Cyngor y Fro cyn dyddiad y cyfarfod.

Er bod y Datganiad Cyfrifon yn destun Archwiliad, gofynnwyd i'r Pwyllgor awdurdodi bod y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid yn llofnodi ac yn rhyddhau Datganiad Cyfrifon GRhR i Archwilio Cymru.

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiad 1.
- (2) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi Datganiad Cyfrifon 2021/22 heb eu Harchwilio i'w ryddhau i Archwilio Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod.
- (2) Hwyluso cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

(h) Archwilio Cymru 2022 Cynllun Archwilio (PC/SA151) –

Roedd angen i Mr S. Wyndham ar ran Archwilio Cymru (AC), fel archwilydd enwebedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, gwblhau gwaith ynghylch y canlynol:

- Archwilio'r Datganiadau Ariannol;
- Gwerth am arian;
- Gwelliant Parhaus;
- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ynghylch sut y byddai AC yn cwblhau'r gwaith yn 2022 gyda'r archwilydd yn dweud y byddai'r archwiliad yn dechrau ymhen ychydig ddyddiau.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cynllun archwilio arfaethedig ar gyfer 2022 a chytuno iddo.

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod.

(i) Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (CAT) –

Roedd y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn gydweithrediad rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg a ddechreuodd ar 1 Mai, 2015, ac roddwyd cyfrifoldeb iddo ddarparu Gwasanaethau Rheoliadol ar draws y tri Awdurdod.

Roedd y Cytundeb Cydweithio yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth y GRhR a'r Pennaeth Cyllid gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a anfonir, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, at y Cynghorau partner.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod yr adroddiad yn dangos bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio'n sylweddol ar y trefniadau adrodd traddodiadol ac ar gyflawni rhai dyletswyddau statudol yn ystod 2021/22.

Nododd yr adroddiad fod cyllideb refeniw gros £8.331m ar gyfer 2021/22 y cytunwyd arni gan y Cydbwyllgor ar 8 Rhagfyr, 2020 yn cynnwys cynnydd tybiedig o 2.75% mewn cyflogau ac roedd hyn wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad o 1.9% yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Ni chafodd unrhyw arbedion pellach eu cynnwys yng nghyllideb 2021/22.

O ganlyniad i bandemig Covid-19, roedd sefyllfa refeniw 2021/22 yn parhau i fod yn heriol drwy gydol y flwyddyn, gyda phwysau parhaus ar y gwasanaeth yn weithredol ac yn ariannol. Cafodd cost y cynnydd yn y defnydd o wasanaethau ei liniaru gan gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2021/22, hawliwyd £488k gan Lywodraeth Cymru yn erbyn y Grant Caledi Covid-19 a oedd yn ariannu'r gweithgareddau ychwanegol a gynhaliwyd o fewn y tîm Cydymffurfio â Covid a thri tîm Gorfodi a oedd yn cwmparu rhanbarth yr GRhR. Yn ogystal, roedd £616k wedi'i ailgodi i Gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd yn berthnasol i gefnogaeth y Gwasanaeth i'r ddarpariaeth Profi, Orlhain, Diogelu. Roedd £12,000 arall wedi'i hawlio yn erbyn Grant Colli Incwm Llywodraeth Cymru yn ystod 2021/22.

Ar 31 Mawrth, 2022, roedd GRhR wedi cyflawni tanwariant alldro heb ei archwilio o £363k yn erbyn cyllideb refeniw gros 2021/22 o £8.331m. Roedd y swydd hon yn

cynnwys ystyried creu cronfa arbennig o £148k i ariannu'r gwaith o ddisodli cerbydau sy'n heneiddio ynghyd â chaffael offer gweithredol i gefnogi'r gweithgareddau gweithredol yn ogystal â diogelu lles staff tra byddant ar weithrediadau ac i wahodd Swyddfa Archwilio Cymru yn ffurfiol i ddechrau eu harchwiliad o'r cyfrifon.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, gwahoddodd y Pennaeth Gwasanaeth bob un o'r Rheolwyr Gweithredol i roi trosolwg o'u priod feysydd gwasanaeth.

O ran y rhaglen Arolygu Bwyd a Chynllun Adfer Awdurdodau Lleol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gofynnodd y Cadeirydd am yr hyder a oedd gan y Rheolwr Gweithredol wrth symud ymlaen. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod recriwtio i swyddi hylendid bwyd wedi bod yn her barhaus ers sefydlu'r gwasanaeth GRhR. Byddai prentisiaethau ar gyfer y sector yn ddefnyddiol ond byddai'n cymryd amser. Roedd yr adran yn gweithio i'r cynllun adfer gyda'r nod y byddai'r rhan fwyaf o arolygiadau'n cael eu cwblhau a chyda rhesymau cyfiawn pam na fyddai modd cwblhau rhai ohonynt o bosibl. Unwaith eto o ran agwedd gwasanaeth llygredd sŵn GRhR, dywedodd Rheolwr Gweithredol y gwasanaeth hwnnw ei fod hefyd â rhai swyddi gwag a oedd yr un sefyllfa i'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro.

O ran Diogelwch Adeiladu yn dilyn cyhoeddi'r papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladu fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 2.29 o'r adroddiad, un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru oedd sefydlu Tîm Arolygu ar y Cyd (TAC) gyda Rheolwr Gweithredol y gwasanaeth yn dweud bod swydd Pennaeth TAC wedi'i hysbysebu ers i'r adroddiad gael ei ddrafftio ar gyfer y Pwyllgor.

Yn ystod y cyfarfod cyfeiriwyd at y cynnydd mewn bridio cŵn bach yn anghyfreithlon, gyda'r Cynghorydd Lewis yn achub ar y cyfle i longyfarch y tîm ar y gwaith a'r effaith yn ymwneud â nifer o erlyniadau troseddol a wnaed mewn gwahanol agweddau ar y gwasanaeth.

Holodd y Cynghorydd De'Ath pa mor llwyddiannus y bu'r cynllun prydles tacsis fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 2.42 o'r adroddiad. Mewn ymateb, hysbyswyd y Pwyllgor bod y cynllun Dinas-Ranbarth wedi manteisio ar y cynllun Dinas-Ranbarth ond nad oedd y cynllun prydlesu arall y cyfeiriwyd ato wedi'i dderbyn, hyd yma, a chafodd roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, i ystyried a darparu atebion / opsiynau i gynorthwyo.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon Drafft, ac awdurdodi'r Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid y Gwasanaethau Taledig ar gyfer y Cynghorau Partner eraill.

Rheswm dros y penderfyniad

Cwrdd â'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 y Cytundeb Cydweithio.

(j) Cynllun Busnes Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (CAT) –

Roedd yr adroddiad yn nodi'r broses ar gyfer datblygu Cynllun Busnes drafft y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS) ar gyfer 2022/23.

Roedd angen i'r Cydbwyllgor gadarnhau'r Cynllun drafft a oedd yn rhan o broses adrodd flynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a nodwyd yng Nghytundeb Cydweithio'r GRhR.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn cyflwyno stori newyddion da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a sut yr oedd yn gweithio'n ymarferol, gyda'r adroddiad wedyn yn cael ei

PENDERFYNWYD -

(1) Y dydlid nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2022/23 pe cyfyd yr angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Mae'r Cytundeb Cydweithio (CC) yn nodi (yng nghymal 14) y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bob blwyddyn yn datblygu Cynllun Busnes drafft dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli.

(2) Pwrpas y Cynllun Busnes, fel y nodir gan y CC, yw diweddarau'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y Cynllun Busnes blaenorol; ac i nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Nododd y CC ymhellach y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo, ac ar ôl ei gymeradwyo, ei fod yn cael ei ddisbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Taledig pob Awdurdod sy'n Cymryd Rhan.

(3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes a fyddai'n galluogi mân newidiadau i gael eu gwneud, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cydbwyllgor. Sicrhau y gellir gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

(k) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2022/23 (CAT) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod Adran 18 o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio Cynllun Iechyd a Diogelwch yn nodi'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni'r dyletswyddau. Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y Tîm Iechyd a

Diogelwch a gofynnodd i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23 gael ei gymeradwyo.

Yn dilyn ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch a allai'r amcanion ar gyfer yr agwedd hon ar yr GRhR gael eu pennu gan Awdurdodau unigol neu a osodwyd, dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei fod yn gymysgedd o'r ddau.

PENDERFYNWYD –

(1) Bod Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2022/23 yn cael ei gymeradwyo.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2022/23 pe cyfyd yr angen.

Rheswm dros y benderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau fel awdurdol gorfodi o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac i gydymffurfio â chanllawiau statudol.